# WILLIAM REES (Gwilym Hiraethog)

**Parhad o'r rhifyn blaenorol, tudalen 13.**

## gan D. BEN REES



*William Rees, 'Gwilym Hiraethog', 1802-1883*

Dewiswyd David Davies, Paradise Street, gŵr adnabyddus ymhlith Cymry Lerpwl, yn gadeirydd, a gwerthwyd y tocynnau ymlaen llaw gan farsiandïwyr yn Stanhope Stret, Mill Street, Brownlow Hill a Tithebarn Street. Cyhoeddwyd rhaglen a phosteri i hysbysebu'r amgylchiad a thyrrodd y Cymry yn eu cannoedd i lenwi'r neuadd. Am ddwy awr darlithiodd Gwilym Hiraethog ar William Williams, Pantycelyn. Mae hon yn ddarlith sylweddol ac fe'i cyhoeddwyd ar ôl ei farw.

Gwnaeth Hiraethog nifer o sylwadau a gosodiadau sy'n haeddu cyfeirio atynt. Cymerer y rhain: y ffaith i Bantycelyn ddianc gystal rhag yr erledigaeth ffiaidd fu ar ei gyd-arloeswyr o law y tyrfaoedd a ysgogwyd gan y sgweiriaid a'r eglwyswyr penboeth. Llusgwyd Howel Harris, er enghraifft, yn waed i gyd drwy Stryd Fawr y Bala. Pam hyn? Awgrym Hiraethog yw fod yr awen yn cysgodi y pregethwr o Bantycelyn. Yr oedd ofn y beirdd ar yr offeiriaid gwrth-Fethodistaidd. Cawsant aml i fflangell gan feirdd fel Thomas Edwards (Twm o'r Nant, 1739-1810) a bu hyn yn help i'r Perganiedydd ddianc rhag ei faeddu.

Mae'n werth astudio'r ddarlith ar fframwaith yr emynau. Dengys William Rees fod y gynghanedd yn bur ddieithr i William Williams, ac yn wir byddai'r gynghanedd wedi ei gaethiwo'n ormodol. Peth arall sylwgar a soniwyd gan Gwilym Hiraethog yw fod llenyddiaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau mawr wedi anwybyddu cyfraniad Pantycelyn. Anghofiodd Walter Davies (Gwallter Mechain, 1761-1849), beirniad llenyddol craff, ddweud dim amdano. Yn sicr mae hynny yn werth ei nodi. Felly hefyd Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd, 1795-1855). Fe gafodd Pantycelyn fwy o sylw gan rai nad oeddent yn feirdd, fel David Owen (Brutus, 1795-1866), a John Mills (Ieuan Glan Alarch, 1812-73), na chan y beirdd-feirniaid, fel y geilw William Rees hwy. Y mae ef hefyd yn hynod o ddiddorol yn ei ymdriniaeth o ddiwinyddiaeth y gerdd *Golwg ar Deyrnas Crist*. Crybwylla fod Pantycelyn yn Galfin mewn rhai penillion ac yn Armin arnewn penillion eraill. Efelychu John Miltwn a wna yn *Golwr ar Deyrnas Crist* tra bo'n efelychu John Bunyan yn *Theomemphus*. Dyna rai sylwadau addysgol adeiladol. Ond y mae gennym hefyd dystiolaeth Eleazer Roberts (1825-1912) a fu'n gwrando'r ddarlith yn cael ei thraddodi. A'r hyn y mae e'n sôn amdano yw clywed William Rees yn darllen emynau godidog Pantycelyn:

> *Y mae Hymnau Williams wedi bod yn anwyl genyf byth er y noson hono. Yr oedd clywed Hiraethog yn darllen rhai ohonynt yn ei ddull dihafal ei hun yn dreat o'r radd uchaf.*

Teimlwn innau yr un fath pan glywais yr Athro Derec Llwyd Morgan yn ei ddarlith odidog ar Pantycelyn ym 1991. Y peth arall y sonia Eleazer Roberts amdano yw gweld Gwilym Hiraethog yn traddodi'r ddarlith a'r defnydd a wnâi o'i ddwylo a'i lygad (wedi'r cyfan, un llygad oedd ganddo; collodd y llall pan oedd yn blentyn trwy'r frech wen). Gŵr ydoedd a oedd yn ddigon parod i ddefnyddio unrhyw gyfrwng oedd ganddo wrth law i drosglwyddo'r neges. Dyna'i ymgais i egluro Deddf Disgyrchiant mewn darlith. Cymerodd y Beibl mewn un llaw a'r Llyfr Emynau yn y llall. Gosododd hwy yn uchel uwch ei ben a'u gollwng yn ddiseremoni. Gwnaeth yr arbrawf yr ail waith nes i'r gynulleidfa dorri allan mewn bonllefau o gymeradwyaeth. Yn bersonol credaf fod hyn yn enghraifft ddi-chwaeth, ac eto fe allaf werthfawrogi'r ffaith mai meistr y gynulleidfa oedd wrth law yn gofalu fod y neges am ddisgyrchiant yn cael dyfnder daear!

Weithiau llais unig ydoedd fel cyfathrebwr, yn arbennig pan âi ati i ddarlithio ar destun dadleuol fel Rhyfel y Crimea. Yr oedd ei frawd ei hun, Henry Rees (1798-1869), un o sêr-bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd yn Lerpwl, a oedd hefyd yn gydymdog iddo, yn anghytuno â'i safbwynt. Roeddent mor wahanol i'w gilydd. Cyfundebwr mawr a pharchus ei safbwynt oedd Henry Rees, llywydd cyntaf y Gymanfa Gyffredinol. Pregethwr eneiniedig, ond ni thrafferthai gydag ymgyrchoedd gwleidyddol a chymdeithasol. Roedd y ddau yn ffrindiau da ond mor wahanol i'w gilydd. Ymgadwodd Henry Rees o fyd y ddarlith. Gwnaeth William Rees y ddarlith yn arf gwleidyddol. Er bod ganddo ddarlithiau ar wŷr enwog fel Martin Luther a Phantycelyn ac ar bynciau fel seryddiaeth, yr oedd y mwyafrif o'r testunau ar bynciau'r dydd — chwyldroadau 1848; rhyfel Crimea; heddwch, ac ati. Câi gyfle yn y rhain i oleuo meddyliau a magu barn.

Rhaid rhoddi lle hefyd i Gwilym Hiraethog yr Ewropead, gŵr a oedd yn gohebu gyda'r cenedlaetholwyr o'r Eidal Giuseppe Mazzini (1805-72) a Giuseppe Garibaldi (1807-82), dau o'i gyfoeswyr. Darlithiodd ar chwyldroadau 1848-49 pan oedd Mazzini a Garibaldi yn weithgar yn y chwyldro yn Milan ac yn ddiweddaach yn Rhufain. Byr fu'r Weriniaeth yno ac ar ôl y cwymp daeth Mazzini yn alltud i Lundain, lle sefydlodd Gyfeillion yr Eidal a lle y gwnaeth gymaint i hyrwyddo cydymdeimlad at yr achos ymysg pobl ddylanwadol ym Mhrydain. Ysgrifennodd Mazzini ato i'w berswadio i ddefnyddio ei ddylanwad o blaid y petisiwn yn galw am i filwyr Ffrainc gael eu galw adref, gan nodi rhai o'r Seneddwyr a oedd fel William Rees yn gefnogol i fudiad Cyfeillion yr Eidal. Sylwaf fod mwyafrif o'r Aelodau Seneddol hyn bellach yn enwau anghofiedig, fel James White, Aelod Seneddol Aberhonddu, a James Stanfield, Aelod Seneddol Halifax.

Rhyddewyllysiwr yw'r gair gorau i ddisgrifio Gwilym Hiraethog. Gwrthwynebai bob cynnig i ormesu a sathru hawliau'r unigolyn o dan draed. Perswadiodd nifer dda o drigolion Cymru i bledio rhyddhad i'r gorthrymedig yn Ewrop. Yr oedd yn hynod o wybodus, er enghraifft, yn achos yr Hwngariaid. Dygodd eu sefyllfa druenus i sylw ei ddarllenwyr ac yn eu plith y Barnwr Arthur James Johnes. Roedd y Barnwr A. J. Johnes (1809-71) yn eglwyswr diwylliedig ac fe ddaeth, trwy ysgrifbin Gwilym Hiraethog yn ffrind da i'r Hwngariaid. Anfonodd yr Hwngariaid ddirprwyaeth i ddiolch iddo am ei ymdrechion o'u plaid. Ac wrth gydnabod y ddirprwyaeth dywedodd y Barnwr mai i bapur o'r enw *Yr Amserau* yr oedd ef yn bennaf ddyledus. Daeth i wybod am gyflwr yr Hwngariaid y ffordd honno ac yn bennaf trwy nodiadau William Rees. Daeth dau o'r ddirprwyaeth, un ohonynt yn ysgrifennydd i Kossuth ei hun, i weld yr argraffydd John Jones yn Castle Street (yn swyddfa'r *Amserau*) ac ar ôl hynny aethant i weld y golygydd, William Rees, yn ei gartref yn Devon Street.

Yr oedd William Rees yn un o brif ladmeryddion deffroad y werin. Medrai fod yn ochelgar ar dro, yn arbennig pan oedd y werin yn mynd dros ben llestri fel yn hanes terfysgwyr Beca yn sir Gaerfyrddin a sir Benfro. Yr oedd rhaglen Beca mor radicalaidd â rhaglen y Siartwyr yn Nyffryn Hafren. Pobl oeddynt yn gwrthwynebu gormes o bob math, yn dadlau am well